Centre of expertise on child sexual abuse

# Cam-drin plant yn rhywiol yn 2022/23: Tueddiadau mewn data swyddogol

## Crynodeb gweithredol


Kairika Karnsa a Paige Bromley





Chwefror 2024

## Ynglŷn â’r awduron

Mae Kairika Karsna yn uwch swyddog ymchwil a gwerthuso yn y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh). Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth o raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr.

Mae Paige Bromley yn swyddog ymchwil a gwerthuso yn y Ganolfan CPRh ac mae hi ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer ei PhD sy’n ystyried effaith COVID-19 ar wasanaethau cam-drin domestig yng nghefn gwlad.

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh)

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw’n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a’n gweinyddu gan Barnardo’s. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a’r sector gwirfoddol.

Y nodau y gweithiwn i’w cyrraedd yw:

- cynyddu’r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o’i raddfa a’i natur
- sicrhau bod mwy’n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad/parhad sy’n cam-drin yn rhywiol.

Rydym yn ceisio cyflwyno’r newidiadau hyn drwy:

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a’r ymateb iddo
- mynd i’r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy’n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i’n gwefan yn **www.csacentre.org.uk**

# Crynodeb gweithredol

**Mae deall graddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yn allweddol i wella ymatebion iddo. Mae'r adroddiad hwn yn parhau â chyfres cyhoeddiadau'r Ganolfan CPRh sy'n rhoi'r dystiolaeth a'r dadansoddiad diweddaraf o raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr i weithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar yr achosion a gofnodwyd o gam-drin plant yn rhywiol mae gweithwyr proffesiynol wedi'u canfod ac wedi ymateb iddynt yn 2022/23, gan ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael o'r data swyddogol a ryddhawyd gan asiantaethau amddiffyn plant, cyfiawnder troseddol ac iechyd yng Nghymru a Lloegr.**

Mae'n bwysig cydnabod mai dim ond i leiafrif bach o'r achosion o gam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd yn ein cymdeithas mae data asiantaeth yn berthnasol. Rydym yn amcangyfrif bod o leiaf un o bob 10 plentyn yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cam-drin yn rhywiol cyn 16 oed; mae nifer yr achosion cam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd mewn data asiantaethau swyddogol ac a grynhoir yn yr adroddiad hwn yn is o lawer na'r amcangyfrifon hyn o hyd a lled achosion. (Am dystiolaeth arolwg ddiweddaraf ar nifer yr achosion, gweler ein hadroddiad 2021 *Graddfa a Natur Cam-drin Plant yn Rhywiol: Adolygiad o Dystiolaeth* yn **www.csacentre.org.uk/app/uploads/2023/09/Scale-and-nature-review-of-evidence-2021.pdf**.)

Serch hynny, mae data asiantaethau yn adnodd gwerthfawr, yn bennaf oherwydd ei fod yn cael ei gasglu yn unol â diffiniadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol: mae hyn yn ei gwneud yn bosibl monitro sut mae'r adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol wedi newid dros amser, a sut mae'n wahanol rhwng awdurdodau lleol, heddluoedd a chanolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol.

## Data amddiffyn plant yn 2022/23

Drwy gydol y flwyddyn, cofnododd gwasanaethau plant awdurdodau lleol yn Lloegr bryderon cam-drin plant yn rhywiol mewn 33,760 o asesiadau plant; mae hyn 1% yn llai nag yn 2021/22. Roedd dwy ran o bump o'r pryderon hyn yn ymwneud ag ymddygiad rhywiol niweidiol gan blentyn. Cafodd pryderon am gamfanteisio'n rhywiol ar blant (sy'n cael eu trin ar wahân yn yr asesiadau hyn, er eu bod yn fath o gam-drin plant yn rhywiol) eu cofnodi mewn 15,020 o asesiadau: gostyngiad o 8% ar y flwyddyn flaenorol. Bu gostyngiad cyson yn nifer yr asesiadau sy'n cofnodi pryderon ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant, gyda bron i 5,000 yn llai yn 2022/23 na phum mlynedd yn gynharach. Gyda'i gilydd, roedd un o bob 10 asesiad gan awdurdodau lleol yn Lloegr yn cofnodi pryder am ryw fath o gam-drin plant yn rhywiol.

> "Roedd un o bob 10 asesiad gan awdurdodau lleol yn Lloegr yn cofnodi pryder am ryw fath o gam-drin plant yn rhywiol."

Er nad oes tystiolaeth i awgrymu bod nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn amrywio’n sylweddol rhwng gwahanol ranbarthau yn Lloegr, roedd asesiadau gwahanol awdurdodau lleol yn amrywio’n sylweddol o ran nodi pryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol – sy’n awgrymu bod plant yn cael ymateb gwahanol i’w cam-drin rhywiol yn ôl lle maen nhw’n byw. Er nad oedd pedwar awdurdod lleol wedi cofnodi unrhyw bryderon am gam-drin plant yn rhywiol dros y flwyddyn gyfan, cofnododd 10 awdurdod lleol bryderon o’r fath am fwy na 70 o blant am bob 10,000 o blant sy’n byw yn yr ardal. Roedd cyfraddau canfod achosion pob awdurdod lleol yn Llundain a Dwyrain Lloegr yn tueddu i fod yn isel, ond roedd gan bob rhanbarth arall amrywiad uchel mewn cyfraddau rhwng awdurdodau lleol. Roedd llai o wahaniaeth lleol a rhanbarthol o ran canfod pryderon ynghylch camfanteisio’n rhywiol ar blant mewn asesiadau, gan awgrymu dull gweithredu mwy cyson.

Er nad oes gwybodaeth gyffredinol ar gael i’r cyhoedd am y camau a gymerwyd yn dilyn asesiadau o’r fath, cyhoeddir data ar y prif resymau dros leoli plant ar gynlluniau amddiffyn plant. Mae’n dangos bod 2,290 o blant yn Lloegr – 9% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol – wedi cael eu rhoi ar y cynllun amddiffyn plant o dan y categori cam-drin rhywiol yn 2022/23. Dyma’r nifer isaf mewn 14 mlynedd, a’r ail isaf yn y 29 mlynedd mae’r data hwn wedi cael ei gyhoeddi; mae’n cyfateb i lai nag un o bob 20 o blant y mae eu hasesiadau cychwynnol wedi cofnodi pryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol neu gamfanteisio. Digwyddodd y gostyngiad o 9% yn sgil gostyngiad bach o 1% yn nifer cyffredinol y plant a roddwyd ar gynlluniau amddiffyn plant yn 2022/23. Cam-drin plant yn rhywiol oedd y rheswm dros ddim ond 3.6% o’r holl gynlluniau amddiffyn plant newydd, y gyfran isaf a gofnodwyd erioed.

Ni chyhoeddwyd unrhyw wybodaeth am y modd mae gwasanaethau plant yn canfod neu’n ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru mewn pryd i’w chynnwys yn yr adroddiad hwn.

Roedd proffil demograffig plant ar gynlluniau amddiffyn plant oherwydd pryderon am gam-drin rhywiol yn dal yn debyg i’r blynyddoedd blaenorol. Roedd y plant hyn yn tueddu i fod yn hŷn na’r rhai a roddwyd ar gynlluniau amddiffyn plant am resymau eraill, ac roedd tri o bob pump yn ferched. O’u cymharu â’r boblogaeth o blant sy’n mynychu ysgolion a meithrinfeydd y wladwriaeth yn Lloegr, roeddent yn llai tebygol o fod o dras Du neu Asiaidd.

Yn yr un modd â chofnodi pryderon ynghylch cam-drin rhywiol mewn asesiadau plant, roedd cryn amrywiaeth ar draws awdurdodau lleol yn nifer y plant sy’n cael eu rhoi ar gynlluniau amddiffyn. Ni wnaeth dwy ran o dair o’r 152 o awdurdodau lleol yn Lloegr roi unrhyw blant nac ychydig iawn o blant ar gynlluniau amddiffyn plant oherwydd pryderon ynghylch cam-drin rhywiol, tra mai dim ond saith awdurdod lleol a roddodd bump neu fwy o blant fesul 10,000 o blant yn y boblogaeth leol. Roedd y cyfraddau isaf i’w gweld yn Llundain fel arfer, tra bod gan bob rhanbarth arall amrywiaeth sylweddol.

> Yn Lloegr, cafodd 2,290 o blant eu rhoi ar y cynllun amddiffyn plant o dan y categori cam-drin rhywiol – y nifer isaf mewn 14 mlynedd.

## Troseddau rhywiol plant a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2022/23

Cofnododd heddluoedd yng Nghymru a Lloegr 105,286 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol yn ystod y flwyddyn, 2% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y cynnydd bach cyffredinol hwn yn cael ei sbarduno'n llwyr gan gynnydd o 14% yn nifer y cofnodion o droseddau delweddau cam-drin plant yn rhywiol.

Roedd heddluoedd yn gwahaniaethu mwy na thriphlyg yng nghyfradd y troseddau cam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd o'i gymharu â maint poblogaeth eu plant. Roedd y 'cyfraddau troseddau a gofnodwyd' hyn yn tueddu i fod ar eu hisaf yn Ne Ddwyrain Lloegr, tra bod gan Ogledd Orllewin Lloegr, Swydd Efrog a Humberside, Gogledd Ddwyrain Lloegr a Chymru y cyfraddau uchaf ar gyfartaledd.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 100,379 o ymchwiliadau gan yr heddlu i droseddau cam-drin plant yn rhywiol – bron i 6,000 yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Cafodd unigolyn dan amheuaeth ei gyhuddo neu ei wysio mewn 11,416 (11%) o'r rhain, a daeth 3,640 arall (4%) i ben gyda rhybuddiad, datrysiad cymunedol neu 'weithgaredd dargyfeirio neu ymyrraeth'. Cynyddodd nifer y bobl dan amheuaeth a gafodd eu cyhuddo/gwysio yn unol â'r cynnydd cyffredinol mewn ymchwiliadau a gwblhawyd, fel bod cyfran yr ymchwiliadau a ddaeth i ben gyda chyhuddiad yn parhau i fod yn 11%. Caewyd bron i ddwy ran o dair o ymchwiliadau oherwydd anawsterau o ryw fath o ran tystiolaeth, fel mewn blynyddoedd blaenorol. Gan barhau â thuedd hirdymor, roedd cyhuddiadau'n fwy tebygol ar gyfer troseddau camfanteisio rhywiol a pharatoi i bwrpas rhyw, ac yn lleiaf tebygol ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â gweithgarwch rhywiol a thrais rhywiol.

Cymerodd ymchwiliadau troseddau rhywiol fwy o amser nag unrhyw drosedd eraill i gael eu cwblhau. Yr amser canolrifol rhwng cofnodi trosedd rhywiol a'r ymchwiliad yn cyrraedd canlyniad oedd 72 diwrnod – a phan mai cyhuddiad neu wŷs oedd y canlyniad, roedd canolrif yr amser bron bedair gwaith yn hirach, sef 271 diwrnod. Roedd canolrif yr amseroedd 10 diwrnod yn hirach nag yn 2021/22. Ar gyfer troseddau trais rhywiol, hyd canolrifol ymchwiliad a arweiniodd at gyhuddiad neu wŷs oedd 421 diwrnod – ymhell dros flwyddyn. Cymerodd Gwasanaeth Erlyn y Goron amser cyfartalog (cymedrig) o 114 diwrnod i ddod i benderfyniad cyfreithiol ynghylch a ddylid cyhuddo unigolion yr amheuir eu bod wedi cyflawni troseddau cam-drin plant yn rhywiol.

Yn 2022/23, rhyddhawyd data newydd ar oedran dioddefwyr troseddau rhywiol yng nghofnodion yr heddlu. Roedd y data hwn yn dangos bod cam-drin rhywiol yn cael effaith anghymesur ar blant. Roedd merched o dan 18 oed yn cyfrif am 37% o'r holl ferched a oedd wedi dioddef troseddau rhywiol, gan gynrychioli dim ond 19% o'r boblogaeth, tra roedd 40% o'r gwrywod a oedd wedi dioddef troseddau, ond 21% o'r boblogaeth o wrywod, o dan 18 oed.

> Pobl ifanc dan 18 oed yw un rhan o bump o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr, ond mae dwy ran o bump o ddioddefwyr troseddau rhywiol.

## Achosion llys yn 2022

Yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2022, cafodd achosion llys eu dwyn yn erbyn 8,024 o ddiffynyddion am droseddau cam-drin plant yn rhywiol, 6% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer yr erlyniadau wedi cynyddu ar draws pob categori o droseddau ar wahân i droseddau delweddau cam-drin plant yn rhywiol, lle roedd erlyniadau wedi disgyn 2%.

Roedd 6,517 o euogfarnau, a arweiniodd at gyfradd erlyn-i-euogfarn o 81%. Roedd y gymhareb hon yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol gategorïau o droseddau, o ddim ond 49% ar gyfer erlyniadau trais rhywiol i 90% ar gyfer erlyniadau delweddau cam-drin plant yn rhywiol.

Rhoddwyd dedfryd o garchar yn syth i ddwy ran o bump o'r diffynyddion a gafwyd yn euog, a chafodd traean ddedfryd ohiriedig. Roedd dedfrydau o garchar ar unwaith yn llai tebygol ar gyfer troseddau paratoi i bwrpas rhyw, ac ar gyfer troseddwyr dan 18 oed.

Dynion oedd y diffynyddion yn bennaf (99%) ac yn hŷn na 18 (97%), fel yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd pump o bob chwech (83%) yn Wyn Prydeinig, cyfran uwch nag ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr (75%). Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â diffyg cyffredinol o ran canfod achosion cam-drin plant yn rhywiol mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Roedd gwahaniaeth sylweddol yn amserlenni'r llys rhwng erlyniadau am droseddau delweddau cam-drin plant yn rhywiol ac erlyniadau eraill am gam-drin plant yn rhywiol. Er mai'r amser cyfartalog (cymedrig) i symud ymlaen o gyhuddiad hyd at gwblhau yn Llys y Goron ar gyfer troseddau delweddau oedd 170 diwrnod, roedd bron ddwywaith yn hirach – 331 diwrnod – ar gyfer pob trosedd arall sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.

Mae cyfuno data'r heddlu a'r erlyniad ar amserlenni yn dangos amser aros cyffredinol o bron i ddwy flynedd rhwng rhoi gwybod i'r heddlu am gam-drin plant yn rhywiol a dod â'r achos i ben yn y llys – ac amser aros llawer hirach mewn perthynas â throseddau treisiau rhywiol.

## Plant sy'n mynychu canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn 2022/23

Roedd canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn Lloegr wedi cael cyswllt cychwynnol ag 8,465 o blant yn ystod y flwyddyn, 3% yn fwy nag yn 2021/22. Yng Nghymru (lle'r oedd y data hwn ar gael am y tro cyntaf), cefnogwyd 1,036 o blant gan y canolfannau hyn, gan ddod â'r cyfanswm ar draws Cymru a Lloegr i 9,501 o blant.

Roedd ychydig dros hanner (52%) y plant a gafodd gymorth gan y canolfannau yn Lloegr yn 13–17 oed, ac roedd pump o bob chwech yn fenywod. Roedd y mwyafrif llethol yn Wyn Prydeinig; roedd plant Asiaidd yn cyfrif am y gyfran leiaf o blant a welwyd gan y canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol o'i gymharu â'u cyfran o boblogaeth ysgolion a meithrinfeydd Lloegr. Nid oedd manylion demograffig ar gyfer plant a gefnogir gan y canolfannau hyn yng Nghymru ar gael.

Am y tro cyntaf, roedd dros hanner (59%) yr holl gysylltiadau cyntaf â phlant yn Lloegr yn digwydd o bell yn hytrach nag yn bersonol. Mae nifer y cysylltiadau cyntaf o bell wedi codi bron i bedair gwaith mewn cymaint o flynyddoedd. Mae hyn yn awgrymu bod mesurau a gymerwyd yn ystod COVID-19 i oresgyn y cyfyngiadau mewn cyswllt wyneb yn wyneb wedi cael eu gwreiddio ar ôl y pandemig. Roedd cyrhaeddiad canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol i bobl ifanc dan 18 oed yn amrywio'n fawr ar draws y rhanbarthau yng Nghymru a Lloegr, gyda chanolfannau yng Nghymru yn cael bron i chwe gwaith yn fwy o gysylltiadau cyntaf o'u cymharu â'r boblogaeth plant ranbarthol â'r rheini yn Llundain.

> Am y tro cyntaf, cynhaliwyd mwy na hanner cysylltiadau cyntaf canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol Lloegr â phlant o bell.

## Gwella dealltwriaeth o raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol

Ers cyhoeddi rhifyn y llynedd o'r adroddiad hwn, mae rhai datblygiadau wedi bod o ran casglu a defnyddio data swyddogol sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol: o ran pa mor gyffredin ydyw, a chanfod ac ymateb iddo.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i dreialu arolwg cenedlaethol o gamarfer plant a fydd yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol. Mae'n bwysig bod Llywodraeth y DU yn parhau i flaenoriaethu'r gwaith hanfodol hwn, a bod yr arolwg yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl.

Mae'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd Plismona wedi cyhoeddi ei dadansoddiad manwl cyntaf o droseddau cam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu, gan roi cipolwg newydd ar y mathau o droseddau a gofnodwyd, y bobl a'u cyflawnodd, a'r dioddefwyr.

Fel rhan o raglen genedlaethol sydd â'r nod o drawsnewid ymateb yr heddlu i drais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol, cyhoeddwyd modelau gweithredu cenedlaethol newydd ar gyfer ymchwilio i drais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol a'u herlyn. Fodd bynnag, er bod plant yn anghymesur o debygol o ddioddef troseddau rhywiol, nid yw'n glir a roddir ystyriaeth benodol i anghenion plant sy'n ddioddefwyr.

Mae'r Adran Addysg wedi cyhoeddi Strategaeth Ddigidol a Data Gofal Cymdeithasol Plant newydd, ond prin yw'r manylion ynghylch sut y bydd hyn yn cefnogi gwell dealltwriaeth ynghylch canfod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

Yn dilyn cyhoeddi canfyddiadau'r Ganolfan CPRh o'r astudiaeth fwyaf cynhwysfawr hyd yma o wasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ein hariannu i ailadrodd yr astudiaeth yn 2024/25. Ar ben hynny, rydym yn datblygu 'hyb data' a fydd yn sicrhau bod amcangyfrifon lleol a rhanbarthol o nifer yr achosion a data asiantaethau ar gael i lunwyr polisïau, comisiynwyr a chyllidwyr lleol, a chyfeiriadur o wasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol.

## Casgliadau

Yn 2022/23 roedd y lefelau cyffredinol o adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol gan asiantaethau swyddogol yn weddol debyg i'r flwyddyn flaenorol, tra bod tueddiadau ymateb asiantaethau yn dal yn anodd eu hasesu.

Roedd y 2,290 o blant a roddwyd ar gynlluniau amddiffyn plant o dan y prif gategori cam-drin rhywiol yn cyfateb i ddim ond 5% o'r plant ledled Lloegr, yr oedd eu hasesiadau cychwynnol yn cofnodi cam-drin rhywiol neu gamfanteisio rhywiol fel pryderon yn 2022/23. Ni chesglir gwybodaeth ar lefel genedlaethol am yr ymateb (os o gwbl) gan y gwasanaethau plant i'r 95% sy'n weddill.

Mae diffyg gwybodaeth tebyg am yr ymateb aml-asiantaeth i ddiogelu plant yn yr 85% o achosion lle nad yw ymchwiliad gan yr heddlu yn dod i ben gyda chyhuddiad, datrysiad cymunedol neu weithgarwch dargyfeiriol.

Mae 'loteri cod post' o hyd yng ngweithgarwch asiantaethau: mae lle mae plant yn byw yn effeithio ar ba mor debygol yw hi y bydd eu cam-drin rhywiol yn cael ei adnabod ac yn ymateb iddo.

Mae hyn i gyd yn tynnu sylw at yr angen brys ar draws y llywodraeth i ddata swyddogol gynnwys mwy o wybodaeth am ymateb asiantaethau i gam-drin plant yn rhywiol, ac i wella ansawdd, cysondeb a chymharedd data ar draws asiantaethau.

> Mae angen brys i ddata swyddogol gynnwys mwy o wybodaeth am ymateb asiantaethau i gam-drin plant yn rhywiol.

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn
**www.csacentre.org.uk/research-resources/research-evidence/scale-nature-of-abuse/trends-in-official-data/**

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

24828shc24